

MORTIMER (TEULU), Wigmore, sir Henffordd.

Daeth teulu Mortimer i Loegr o Normandi gyda byddin William y Conquerwr, a thua 1075 rhoddwyd i un o'r teulu, sef RALPH de MORTIMER, diroedd yn Sir Amwythig a sir Henffordd, gyda chastell a threflan Wigmore yn yr ail sir fel canolfan. Gan ddechrau felly, tyfodd y teulu yng nghwrs amser i fod yn un o'r prif deuluoedd yn hanes y Goror. Ceir cyfeiriadau at y Ralph hwn yn cryfhau castell 'Dinieithon' ac yn darostwng ' Melenyth,' y ddau yn sir Faesyfed. Yn ystod y 12fed ganrif ymddengys oddi wrth y cyfeiriadau prin a geir fod llawer o ymladd rhwng y Mortimeriaid a'r Cymry. Yn 1144 ceir HUGH de MORTIMER yn ailennill Maelienydd ac Elfael, hyn yn awgrymu eu darostwng a'u colli rywbryd cynt, ac yn 1145 daliwyd a charcharwyd y tywysog Cymreig Rhys ap Howel ganddo. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am farw [Meredith ap Madog ab Idnerth](#) yn 1146. Carcharwyd ROGER de MORTIMER am ddwy flynedd yn 1179 oherwydd i'w ganlynwyr fod yn gysylltiedig rywsut â marwolaeth [Cadwallon ap Madog](#). Yn 1191 alltudiwyd ef am dair blynedd, y tro hwn ar y cyhuddiad o gynllwyn gyda'r Cymry yn erbyn y brenin. Dychwelodd mewn amser, ac yn 1195 gyrrodd feibion [Cadwallon](#) allan o Faelienydd, ond yn 1196 gorchfygwyd ef a Hugh de Say o Richard's Castle gan [Rhys ap Gruffudd](#) ger Maesyfed. Yn hanner cyntaf y 13eg ganrif [Llewelyn ap Iorwerth](#) oedd y prif dywysog yng Nghymru, ac yn 1230 cysylltwyd y Mortimeriaid â [Llewelyn](#) pan briodwyd RALPH de MORTIMER â Gwladys Ddu, merch y tywysog. Bu iddynt fab, ROGER de MORTIMER, ac ychwanegodd ef yn fawr at diroedd y teulu pan briododd yn 1247 â Matilda, ferch [William de Braose](#), cynarglwydd Brycheiniog. Yr oedd Matilda yn gyd-aeres hefyd i stadau [teulu Marshal](#) drwy ei mam Eva, merch [William Marshal, iarll Penfro](#), a thrwyddi hi felly enillodd y Mortimeriaid ran helaeth o Frycheiniog, arglwyddiaeth Maesyfed, a thiroedd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Drwy'r ychwanegiadau hyn, enillodd y teulu nerth a safle uchel ymhlith arglwyddi'r gororau. Gelyn pennaf Roger oedd ei berthynas [Llywelyn ap Gruffudd](#), a bu ysbeidiau o ryfel a heddwch rhyngddynt hyd farw'r ddau yn 1282. Yr adeg hon, yr oedd y frwydr rhwng yr arglwydd Normanaidd a'r tywysog Cymreig yn rhan o frwydr helaethach rhwng y barwniaid Seisnig a'r brenin Harri III, ac yn ddiweddarach yn rhan o ryfel Edward I yn erbyn Cymru. Yn 1262 a 1266 trechwyd Mortimer gan [Llywelyn](#), ac ym mis Medi 1267, trwy gytundeb Trefaldwyn, gorfu iddo ildio rhan o'i diroedd i'r tywysog. Ym mis Tachwedd 1276 apwyntiwyd Mortimer yn gapten dros y brenin Edward I yn siroedd Amwythig, Stafford, a Henffordd, a'r tiroedd cyfagos, fel rhan o'r ymgyrch yn erbyn Cymru. Llwyddodd i ennill llawer o diroedd oddi ar ei elynion. Yr oedd Mortimer yr adeg yma hefyd yn amlwg iawn yng ngwasanaeth y brenin mewn materion cyfreithiol. Bu farw 1282.

Problem fwyaf ei olynydd, EDMUND de MORTIMER, oedd gwrthryfel [Rhys ap Maredudd](#) o Ystrad Tywi, a gorchmynnwyd iddo yn aml yn y blynyddoedd 1287-8 weithredu yn erbyn y gwrthryfelwr. Bu farw 1304. Cydweithiai mab Edmund, sef ROGER de MORTIMER (yn ddiweddarach iarll March) â'i ewythr [Roger, arglwydd y Waun](#), a rhyngddynt dyrchafwyd y teulu i safle uchel iawn. Ofnent dwf eu gelynion mawr, y Despensers, yn Ne Cymru, ac mewn cweryl rhwng iarll Henffordd a Hugh le Despenser yn 1321 yngl n â meddiannu G yr cymerasant ran iarll Henffordd. Ymladdwyd yn llwyddiannus yn y De, ond yn Ionawr 1321/2, wedi iddynt gymryd arfau yn erbyn y brenin, trechwyd a charcharwyd y ddau. Pan goronwyd Edward III, fodd bynnag, enillodd Roger Mortimer o Wigmore fwy o ffafwr nag erioed. Ar 20 Chwefror 1326/7 apwyntiwyd ef yn ustus Cymru ac esgobaeth Llandaf tra rhyngai fodd y brenin. Ailapwyntiwyd ef i Landaf ar 4 Awst 1328, a gwnaed ef yn ustus Cymru am ei oes ar 27 Awst 1328. Sicrhawyd y swydd o ustus Cymru iddo ar 4 Tachwedd 1328, ar ôl ei ddyrchafu'n iarll March, a'r un dydd apwyntiwyd ef yn ustus esgobaeth Tyddewi am ei oes. Ym mis Mehefin 1327 gwnaed ef yn geidwad tiroedd yn ' Glamorgan and Morganwg ' tra rhyngai fodd y brenin, ac ym mis Medi 1327 rhoddwyd iddo diroedd gwerth £1,000 y flwyddyn, yn cynnwys castell Dinbych a thiroedd sied iarll Arundel yng Nghymru. Gwnâi ei safle swyddogol a'i diroedd eang ef bron yn feistr yng Nghymru hyd ei ddienyddio yn 1330 fel bradwr. Dilynwyd ef gan ei yr, ROGER de MORTIMER (1327? - 1360), ac er i'r taid golli ffafwr fel bradwr, trosglwyddwyd y tiroedd ar y Goror i'r yr ymhen amser. Ar ei ôl ef daeth ei fab EDMUND de MORTIMER (1351 - 1381), a briododd Philippa, ferch Lewnel (Lionel), dug Clarence, a'i wraig Elisabeth de Burgh (o Gaerlleon-ar-Wysg a Brynbuga); mab iddynt hwy oedd [Roger de Mortimer](#) (1374 - 1398) a mab arall oedd EDMUND de MORTIMER (1376 - 1409? isod). Pan fu Roger de Mortimer farw yr oedd ei fab EDMUND de MORTIMER (1391 - 1425) o dan oed, ac mewn canlyniad brawd Roger, Edmund (uchod), oedd prif gynrychiolydd y teulu ar y Goror. Ar ddechrau gwrthryfel [Owain Glyndwr](#) unodd Edmund a'i frawd-yng-nghyfraith, Henry Percy, yn erbyn y gwrthryfelwr. Carcharwyd ef, fodd bynnag, yn 1402, ac yn ystod ei garchariad priododd â Chatherin, merch [Glyndwr](#). Ymunodd â chynlluniau'r Cymro, ac yn y cytundeb enwog rhwng Mortimer, [Glyndwr](#), a iarll Northumberland, yr oedd Mortimer i gael de Lloegr. Ofer oedd y cynllunio, a bu farw yn amddiffyn castell Harlech, 1409?. Bu ei nai Edmund farw yn 1425 a throsglwyddwyd y stadau i Risiart, dug Efrog, mab ANNE MORTIMER (chwaer Edmund) a Rhisiart, dug Caergrawnt. Teulu'r Richard hwn a adwaenir fel 'teulu York' yn ein llyfrau ar hanes ' Rhyfel y Rhosynnau '; ond i'r Cymro, eu cyswllt â'r Mortimeriaid (a'u tarddiad, pell yn ôl, o Wladus Ddu, ferch [Llywelyn Fawr](#)), a'r adnoddau tirol ac ariannol a milwrol yng Nghymru a ddug y cyswllt hwnnw iddynt, sy'n cyfrif fwyaf. Nid ' Lancaster a York ' oedd y ddwy blaid i'r Cymro, eithr ' [Tudur](#), Penmynydd ' a ' Mortimer '; ac yn y de-ddwyrain a'r Goror (h.y. yn nhiroedd eang y Mortimeriaid) yr oedd nerth plaid ' York ' yng Nghymru - gweler dan deulu [Herbert](#), Trefaldwyn.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Brut y Tywysogion

J. Williams (gol.), *Annales Cambriae* (1860)

Annales Monastici (1864)

Flores Historiarum (1890)

Johannis de Trokelowe et Henrici de Blaneforde Chronica et Annales (1865)

Eulogium Historiarum sive Temporis (1858–63)

Calendar of Patent Rolls

Calendar of Charter Rolls

Calendar of Fine Rolls

Calendar of Chancery Rolls - (ii) Welsh Rolls

Dugdale, *Monasticon anglicanum, sive pandectae coenobiorum Benedictinorum, Chuniacensiun, Cistersieusium, Carthusiansrum a primordiis ad esrum usque dissolution* (1655-73)

Rymer, *Foedera conventiones, litteræ, et cujuscunque generis acta publica, inter reges Angliæ et alios quousis imperatores, reges, pontifices, principes, vel communitates, ab ingressu Gulielmi I. in Angliam, A.D. 1066, ad nostra usque tempora habita aut tractata ex autographis, infra secretiore archivorum regionum thesaurarias, asservatis, aliisque summæ vetustatis instrumentis, ad historiam anglicanam spectantibus, fideliter exscripta* (1816-1830, 1869)

Rotuli Parliamentorum (1771–1832)

Parliamentary Writs

Chronicon Adae de Usk. A.D. 1377-1404 (1876, 1904)

J. E. Lloyd, [A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#), Cyf. I

J. E. Lloyd, [A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest \(London 1911\)](#), Cyf. II

The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom (1887–1898)

F. M. Powicke, *King Henry III and the Lord Edward the community of the realm in the thirteenth century* (Rhydychen 1947)

J. E. Morris, *The Welsh Wars of Edward I a contribution to mediaeval military history, based on original documents* (Rhydychen 1901)

T. F. Tout, *The place of the reign of Edward II in English history; Based upon the ford lectures delivered in the University of Oxford in 1913* (Manceinion 1914)

W. H. Waters, *Edwardian Settlement of N. Wales in its Administrative and Legal Aspects (1284-1343)*

J. E. Lloyd, *Owen Glendower / Owen Glyn Dwr* (1931)

Oxford Dictionary of National Biography

B. P. Evans, 'The Mortimer Family' (thesis Ph.D., Prifysgol Cymru, yn Ll.G.C.)

Transactions of the Royal Historical Society, 1915

P. Barbier, *The Age of Owain Gwynedd an attempt at a connected account of the history of Wales from December, 1135, to November, 1170* (Llundain 1908)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q3065370](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

